**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 29ain Ionawr, 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(MH) (Cadeirydd), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Dylan Jones(DJ), Cyng. Eifion Williams(EW ), Delyth Algieri (clerc).

Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AR)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Alun Morris(AM)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 27ain Tachwedd, 2023**

Cynnigwyd yn gywir gan ( EW) ac eilwyd gan (JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

4. **CYNLLUNIO**

Cais Rhif: 0/51343 – Estyniadau ac addasiadau mewnol ac allanol cyffredinol, yn cynnwys adeiledd ystlumod ar wahan o fewn ffiniau'r safle – Pant yr Ych Fawr , Maenan- Mr Gwion Hughes.

Cais Rhif: 0/51238 - Annedd menter wledig (Amlinelliad) Meadows by Fron Francis Llanwrst Conwy LL26 0TY

Trafodwyd y ddwy gais gynllunio uchod a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynbiad iddynt.

5. **Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen banc yn ôl yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

6. **Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

Cytunwyd a cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau derbyn y contract ar gyfer y prosiect grant Gronfa Gyffredin y DU Conwy. Arwyddodd y Cadeirydd a'r clerc y dogfennau i anfon yn ôl i'r Gronfa Gyffredin y DU Conwy.

Eglurodd y clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan y 'Cronfa Ffyniant Cyffredin y Du Conwy ar gyfer:-

a) Ail-wynebu'r maes parcio Gegin Wen, Llanddoged.
b) Arwydd maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.
c) Bwrdd picnic ar gyfer Maes Parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

yn cadarnhau fod y cais am grant wedi cael ei gymeradwyo am £3,046.68 a byddent yn anfon llythyr i'r Cyngor Cymuned i gadarnhau hyn yn fuan.

7. **CYNNAL A CHADW**

7.1 Angen tarmacio ambell i dyllau yn y ffordd o Plas Ednyfed hyd at Cae Brychiad, Ffordd Llnddoged..
7.2 Angen edrych ar cyflwr y ffordd allt Salem Llanddoged.
7.3 Draen wedi blocio ar Allt Salem, Llanddoged.
7.4 Pwll o ddwr yn y ffordd wrth Hanner Ffordd, Maenan.
7.5 Pwll o ddwr yn y ffordd wrth Maes Mynan, Llanddoged.
Trafodwyd cyflwr ffyrdd o gwmpas yr ardal ac awgrymwyd i aelodau'r cyngor nodi lawr y ffyrdd sydd angen fwyaf o sylw erbyn y cyfarfod nesaf.

**8. UNRHYW FATER ARALL**

8.1 Nododd y clerc y bydd ddim ar gael dydd Llun olaf o fis Chwefror i gynnal cyfarfod. Pasiwyd a cytunodd aelodau'r cyngor i gynnal y cyfarfod wythnos yn gynt ar y 19eg o Chwefror.
8.2 Derbyniodd y clerc lythyr gan Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am y rhodd ariannol o £100 gan y Cyngor Cymuned.